**Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru**
**Sport Wales National Centre**
Gerddi Sophia | Sophia Gardens
Caerdydd | Cardiff
CF11 9SW

Ffôn | Tel: 0300 3003123

**www.chwaraeon.cymru**
**www.sport.wales**

Annwyl Delyth Jewell AS (Cadeirydd),

Diolch i chi a'r Pwyllgor am y sesiwn groeso a chraffu a gynhaliwyd fis diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu'r gwaith y mae Chwaraeon Cymru a'n partneriaid yn ei wneud yng Nghymru yn fawr iawn, ac mae bob amser yn fuddiol cael aelodau'r pwyllgor yn rhan annatod o'n dull atebolrwydd.

Rydym yn ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiwn i fynd i'r afael â rhai pwyntiau y gofynnodd yr Aelodau am fwy o fanylion amdanynt, yn ogystal â chynnig rhywfaint o wybodaeth ac eglurhad ychwanegol.

**Cyllid**

Ar ddechrau'r sesiwn, gofynnodd Alun Davies AS i ni ddarparu manylion y gwahaniaeth cyllido a nodwyd yn ein hymateb agoriadol. Fel y nodwyd ar y pryd, mae hyn yn amrywio o tua £20 miliwn y flwyddyn rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU, a £200 miliwn+ i sicrhau bod Cymru yn y lefel ganolrifol o wledydd Ewrop o ran cyllid chwaraeon. Mae manylion ein maniffesto sy'n canolbwyntio ar gyllid wedi'u cynnwys ym Maniffesto Chwaraeon Cymru sydd wedi'i atodi gyda'r llythyr hwn.

I egluro, nid bwlch ariannu rhwng Chwaraeon Cymru a chynghorau chwaraeon eraill yw hwn, ond yn hytrach y buddsoddiad a wneir yn sectorau chwaraeon pob gwlad gymharol. Mae'r ffigurau wedi'u cymryd o adroddiad "Degawd o Doriadau" y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR), Tudalennau 85-86. Gellir gweld yr adroddiad yma.

Cawsom gais pellach am wybodaeth am y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu am y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Cyfanswm y cynnydd a wynebodd y sefydliad oherwydd y cynnydd yn yr Yswiriant Gwladol oedd £174,000. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r ffigur ychwanegol hwn, ond nid yw wedi ymddangos yn swyddogol mewn atodiad i lythyr cylch gwaith eto.

**Cymharu cyllidebau blaenorol**
Ar ben hynny, gofynnodd Alun Davies AS am ein sylwadau ar sut roedd ein cyllideb yn cymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi nodi isod ein sylwadau ar ein cyllid dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Un datblygiad cadarnhaol allweddol oedd cyflwyno cyllideb ddangosol tair blynedd yn 2022-23, a helpodd y gwaith o gynllunio tymor canolig a'r cysoni strategol yn sylweddol. Fodd bynnag, roedd

dychwelyd i ddyraniadau cyllideb blynyddol yn 2024-25 yn siomedig, ac mae wedi ailgyflwyno ansicrwydd i'n gwaith cynllunio ariannol a chyflawni.

Nid yw dyraniadau refeniw wedi symud ar yr un cyflymder â chwyddiant. Mae dadansoddiad cyllid dros gyfnod o ddeng mlynedd wedi nodi, pe bai cyllid refeniw craidd Chwaraeon Cymru wedi cael ei gynyddu bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), y byddai dyraniad 2025–26 £8.8 miliwn yn uwch na'r gyllideb bresennol. Yn anochel, mae'r diffyg hwn yn rhwystro ac yn oedi cynnydd tuag at gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Cafodd y gostyngiad o 10.5% yn y gyllideb yn 2024–25 effaith sylweddol ar y sector chwaraeon, gan effeithio'n anochel ar gynnydd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Er bod Chwaraeon Cymru wedi rhoi arbedion mewnol ar waith, trosglwyddwyd cyfran o'r gostyngiad i sefydliadau partner, gan arwain at ansicrwydd sylweddol a'r angen am fesurau i leihau costau. Ar ôl hynny, darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad o £1 miliwn fel taliad afreolaidd yn ystod y flwyddyn, a'i ddosbarthu i bartneriaid. Fodd bynnag, gwnaeth y diffyg ymrwymiad i gyllid yn y dyfodol yr ansicrwydd yn waeth.  Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector i gefnogi gwydnwch ariannol.

Mae'r sefyllfa ariannu cyfalaf wedi tyfu yn ystod y deng mlynedd diwethaf hyd at ddyraniad blynyddol o rhwng £8 miliwn a £10 miliwn.  Mae hyn wedi darparu cefnogaeth sylweddol i gyfleusterau ledled Cymru.  Mae rhaglenni allweddol wedi cynnwys datblygu caeau artiffisial, cyfleusterau cyrtiau ac ariannu cyfleoedd arbed ynni o fewn Chwaraeon Cymru a'r sector ehangach.

**Adolygiad o'r Dull Buddsoddi**

Fel y nodwyd yn y Pwyllgor, mae'r adolygiad o'n dull buddsoddi yn rhywbeth yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud ar sail ailadroddus a pharhaus.  Mae gwahanol agweddau'n cael eu hadolygu ar wahanol gamau. Er enghraifft, elfen allweddol o'r model yw data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Mae'r casgliad hwn o gyfranogiad a galw am chwaraeon ymysg plant a phobl ifanc, gan gynnwys yn ôl dadansoddiad demograffig, yn elfen bwysig. Rydym wedi bod yn adolygu hyn ers yr Arolwg Chwaraeon Ysgol diwethaf i sicrhau ei fod yn parhau'n flaenllaw ac yn arwain at newid ymarferol ledled Cymru. Fel enghraifft o dryloywder a mewnbwn gan bartneriaid, fe wnaethom gynnal 5 sesiwn ranbarthol gyda phob Awdurdod Lleol a Phartneriaeth Chwaraeon yn ddiweddar i gasglu rhagor o fewnwelediad ac adborth.

Bydd elfennau eraill, fel adolygiad o effaith amddifadedd neu newidiadau mewn dulliau a rhaglenni partneriaid, yn mynd rhagddo'n raddol i gydnabod mai dim ond yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r dull yn llawn yr ydym. Rydym yn parhau i gofnodi'r effaith a chyflwyno hynny drwy bapurau ein bwrdd yn fewnol; i Lywodraeth Cymru drwy ein Cyfarfodydd Monitro Chwarterol ac i'n rhwydwaith partneriaid drwy sesiynau dysgu rheolaidd am y sector. Dros amser, bydd yr effaith lefel uwch yn dod yn amlwg drwy'r cyfraniad y mae ein partneriaethau'n ei wneud at ystadegau cenedlaethol.

Y gobaith yw y bydd hyn yn dangos ein hymrwymiad i fyfyrio'n barhaus ar effaith y dull buddsoddi a sut rydym yn gweithio mewn ffordd gydweithredol ar draws ein rhwydwaith partneriaid.

**Costau byw**

Nododd Heledd Fychan AS fod yr argyfwng costau byw wedi'i nodi fel rhwystr i gyfranogiad, ond bod hyn wedi'i archifo yn ein cofrestr risg. Roedden ni eisiau egluro bod y risg a gafodd ei harchifo yn yr Adroddiad Blynyddol yn ymwneud yn benodol â lles staff Chwaraeon Cymru. Er bod staff a

rheolwyr llinell Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o'r pryder hwn ar lefel unigol, nid oedd bellach yn cael ei ystyried yn bryder corfforaethol ledled y sefydliad ac ystyried nad oedd hyn yn cael ei godi'n aml drwy'r amrywiol brosesau i staff drafod materion personol a phroffesiynol.

Rydym yn parhau i gydnabod bod yr argyfwng costau byw yn her i sut y gall y cyhoedd gael mynediad at gynigion chwaraeon a chymryd rhan. Roedd hyn yn rhan o'r rhesymeg y tu ôl i sefydlu'r Grant Arbed Ynni, sydd wedi lleihau'r baich ariannol ar nifer sylweddol o glybiau cymunedol.

**Partneriaethau Chwaraeon**

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor am ragor o wybodaeth am y gwahaniaeth y mae Partneriaethau Chwaraeon yn dechrau ei wneud.

Un enghraifft o fentrau newydd sy'n cael eu cefnogi yw Cronfa Arloesi Actif Gogledd Cymru, lle mae cyllid wedi'i ddyfarnu i 14 o brosiectau, mentrau a phartneriaethau ledled Gogledd Cymru sydd wedi'u targedu at blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig/sy'n wynebu anghydraddoldebau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://gogleddcymruactif.cymru/cy/prosiectau-cronfa-arloesi-yn-dechrau/ . Yn yr un modd, mae gwaith Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru a chyllid ar gyfer mentrau partneriaeth newydd ymysg yr enghreifftiau, gan gynnwys

- **Hooked** – Bydd Bocsio Cymru, ar y cyd â'r Scarlets, y Gweilch, a Cholegau Cymru, yn defnyddio gweithgaredd wedi'i ysbrydoli gan focsio i ymgysylltu â menywod ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Wedi'i gyflwyno mewn mannau croesawgar, annhraddodiadol, bydd y prosiect yn cael ei arwain gan lysgenhadon lleol ac yn hyrwyddo hyder, cysylltiad a chydweithio ar draws chwaraeon.

- **Equity in Action** – Bydd FAW, ar y cyd â Phêl-rwyd Cymru a Thîm Chwaraeon ac Iechyd Abertawe, yn gweithio gyda merched ifanc a genethod mewn mosg lleol i gyd-greu gweithgaredd sy'n addas i'w bywydau nhw. Dan arweiniad hyfforddwyr cyfoedion o fewn y gymuned, bydd y prosiect yn meithrin ymdeimlad o berthyn, hyder ac arweinyddiaeth.

**Cynllunio**

Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau fel ymgynghorai statudol ym maes cynllunio drwy ein partneriaeth â Meysydd Chwarae Cymru. Mae Swyddog pwrpasol ar gyfer Cymru yn rhan o'r rhaglen Meysydd Chwarae, sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau cynllunio ar ran Chwaraeon Cymru. Mewn unrhyw gyflwyniadau i'r broses ymgynghori, egwyddor ein dull yw amddiffyn cyfleusterau a mannau chwaraeon bob amser, a'u gwella. Y tu hwnt i'r rôl statudol hon, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn chwarae rhan weithredol drwy unrhyw fuddsoddiadau cyfalaf i sicrhau bod cytundebau defnyddwyr ar waith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau i'r gymuned eu defnyddio ar lefel leol.

Mae meysydd eraill o'n rôl gynllunio hefyd yn cynnwys gwell dealltwriaeth o gyfleusterau presennol. Mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu elfennau chwaraeon adnodd Map Data Cymru ac ar hyn o bryd mae'n ystyried cyfleoedd perthnasol i fap cyfleusterau cenedlaethol ehangach.

Yn gywir

Grey-Thompson

Baroness Tanni-Grey Thompson DBE
Cadeirydd, Chwaraeon Cymru